


# CARAFANAU, GWERSYLLA A MATHAU O GLAMPIO

Canllaw i'r Gwobrau Croeso

# Rhestr Wirio O’r Meini Prawf Ar Gyfer Pob Gwobr

## 1. RHAID I CHI FOD YN GYFRANOGWR YNG NGHYNLLUNIAU GRADDEDIG/CYMERADWYO CROESO CYMRU

Enw Cyswllt: ...............................................................................................................................

Cyfeirnod Croeso Cymru: ..................................................................................................................

Enw a Chyfeiriad y Sefydliad: ............................................................................................................

...............................................................................................................................................

...............................................................................................................................................

Cod Post: ................................................ Rhif Ffôn: ...........................................................

E-bost: ...................................................................................................................................

Gwefan: ..................................................................................................................................

Dyddiad: .................................................................................................................................

## 2. RHAID LLENWI’R ADRAN HON AR GYFER POB GWOBR

| Darparu Gwybodaeth | Ie | Na |
|---|---|---|
| Manylion y meddyg, ysbyty, deintydd a fferyllfa ar agor drwy’r nos agosaf, a’r milfeddygon agosaf (os derbynnir anifeiliaid anwes) | | |
| Mapiau a gwybodaeth ar gael er cyfeiriad am yr ardal leol. Gellir darparu hyn drwy wefan, apiau, canllawiau printiedig, cyfryngau cymdeithasol neu wybodaeth arall i ymwelwyr | | |
| Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus/ranbarthol leol. Yn ychwanegol, manylion unrhyw gwmnïau cludo bagiau a thacsis sy’n gweithredu’n lleol ar gael hefyd. Darparu gwybodaeth am y cyfleusterau gwefru cerbydau trydan (EV) agosaf | | |
| Arddangos rhagolygon y tywydd, amodau dringo/llwybrau, diweddariadau traffig/ffyrdd, cyfesurynnau’r Arolwg Ordnans (os nad yw’r eiddo wedi’i leoli mewn tref neu bentref ag enw), tablau’r llanw (os yw’n berthnasol) neu wybodaeth arall am yr ardal i’w dangos gyda’i gilydd, a/neu rifau ffôn y gall gwesteion eu ffonio i gael yr wybodaeth ddiweddaraf os oes angen. Darparu gwybodaeth Sat Nav, GPS a Thri Gair Bach | | |
| Darparu gwybodaeth am atyniadau lleol, siarter cychod/traethau (os ydynt yn berthnasol) a digwyddiadau, a/neu rifau ffôn y ganolfan gwybodaeth i dwristiaid a chyfarwyddiadau iddi. Opsiynau tywydd gwlyb i’w hystyried hefyd | | |
| Sicrhau bod lleoliad ac oriau agor y siopau a’r garejys agosaf ar gael, gan gynnwys cyfarwyddiadau iddynt | | |
| Sicrhau bod manylion y banc/peiriant arian parod, swyddfa bost a’r diffibriliwr agosaf ar gael, gan gynnwys cyfarwyddiadau iddynt | | |
| Dangos manylion gwasanaethau achub lleol, gan gynnwys rhif ffôn 999 (112 o ffôn symudol). Dylid esbonio i ymwelwyr tramor y dylent bob amser ofyn am yr heddlu yn y lle cyntaf. Cynnwys rhifau ar gyfer y tîm achub mynydd a gwylwyr y glannau hefyd (os yw’n berthnasol) | | |
| Dangos manylion y Cod Cefn Gwlad, lle bo hynny’n berthnasol https://naturalresources.wales/days-out/the-countryside-codes/the-countryside-code-advice-for-countryside-visitors/?lang=cy | | |
| Sicrhau bod manylion bwytai a thafarndai lleol sy’n cynnig bwyd a gweithgareddau yn yr ardal ar gael, gan gynnwys amseroedd agor | | |

| Darparu Gwybodaeth | Ie | Na |
|---|---|---|
| Blwch cymorth cyntaf ar gael | | |
| Dylai lle, cyfleusterau neu wasanaeth ar wahân fod ar gael i sychu dillad ac esgidiau awyr agored (ee lein ddillad, dadleithydd, peiriant sychu dillad neu ardal sychu wedi'i gwresogi dan do). Os nad ar gael darparu gwybodaeth am gyfleusterau ymolchi, gwasanaeth golchi dillad (gan gynnwys gwasanaeth golchi/sychu dros nos) neu fanylion y cyfleusterau golchi dillad agosaf | | |
| Os derbynnir archebion gan grwpiau, dylai gwybodaeth fod ar gael i grwpiau am gyfleusterau storio, cyfleusterau/opsiynau bwyta (os yw'n berthnasol), cofrestru grwpiau, a gwybodaeth cyn cyrraedd | | |
| Diodydd poeth ac oer ar gael | | |
| Wi-Fi digyfyngiad ar gael am ddim (os ar gael ac wedi'i darparu). Mae angen hysbysebu hyn, yn ogystal ag unrhyw daliadau ychwanegol a godir am y ddarpariaeth. Oes Wi-Fi neu signal symudol da ar gael yn y safle? Diffinio ardal signal symudol da | | |
| Natur y cyflenwad dŵr, os nad yw'n dod o'r prif gyflenwad (rhaid i'r cyflenwad dŵr fodloni'r holl reoliadau statudol ar gyfer dŵr yfed) | | |
| Darparu manylion llawn y llety, gan gynnwys y trefniadau cysgu a'r cyfleusterau ymolchi (p'un a oes bath, cawod neu gyfleusterau a rennir) | | |
| Rhaid i ddulliau gwresogi digonol fod ar gael bob amser, hyd yn oed os yw'r llety ar agor yn ystod y prif dymor yn unig | | |
| Sicrhau bod gwybodaeth am Ffordd Cymru ar gael https://www.croeso.cymru/cy/ysbrydolwch-fi/ffordd-cymru | | |

| Nid yw'r isod yn hanfodol i ennill y wobr – ond maent yn awgrymiadau o Arfer Gorau | Ie | Na |
|---|---|---|
| Cwpanau, fflasgiau a chynhwysyddion ar gyfer tripiau dydd | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Teuluoedd

**Mae'r Gwobr Croeso Teuluoedd gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer teuluoedd yn enwedig ar gyfer y rhai hynny gyda phlant ifanc. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i deuluoedd eu bod yn archebu llety o safon neu'n ymweld ag atyniadau sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darparu cot addas, neu wely plentyn sy'n bodloni'r safonau diogelwch presennol (ddim yn berthnasol i wersylla) | | |
| Darparu lle storio diogel i westeion ei ddefnyddio – ee pramiau ac ati | | |
| Sicrhau bod nodweddion diogelwch yn eu lle y tu mewn i'r llety a'r tu allan – bleindiau heb gortyn, gwifrau sy'n llusgo, dalfeydd ffenestri, gard o flaen llosgwr pren, gorchuddion ar gyfer tyllau tân, digon o olau yn y nos ar hyd y llwybrau a'r grisiau ac ati sy'n arwain o'r maes parcio at y llety ac at unrhyw gyfleusterau ymolchi/toiledau ar wahân | | |
| Darparu cadair/cadeiriau uchel. Dylai llestri/cytleri/cwpanau diod addas i blant bach fod ar gael (perthnasol i glybiau/faniau hurio neu logi a chafis) | | |
| Cynnig lle storio mewn oergell i'r gwestai | | |
| Darparu cyfleusterau i gynhesu llaeth babanod a pharatoi bwyd i fabanod | | |
| Darparu cyfleusterau newid babanod mewn toiledau dynion a merched, neu gyfleuster newid babanod ar wahân. Mat newid babanod cludadwy yn briodol | | |
| Darparu wrinal isel, stôl neu sedd toiled i blant. Darparu bagiau cewynnau/clytiau a biniau i'w gwaredu (mewn blociau toiledau cyhoeddus a chyfleusterau toiledau o fewn clybiau, adeiladau hamdden, ac ati) | | |
| Os oes ystafell chwarae/cyfleusterau awyr agored ar gael, dylent fod yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda | | |
| Darparu giât risiau (lle bo hynny'n berthnasol) | | |
| Goleuadau argyfwng ar gael, ee tortsh neu olau nos ym mhob ardal mae gan gwsmeriaid fynediad ati | | |
| Darparu adloniant i blant – dewis o deganau, gemau, llyfrau, CDs neu DVDs, ac ati | | |
| Mynd i'r afael â materion diogelwch yn y parc, gydag arwyddion i dynnu sylw at bonciau arafu a pheryglon | | |
| Darparu bath i fabanod (ar gais) os nad oes bath maint llawn ar gael | | |
| Y logo Gwobr Croeso Teuluoedd i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Y darpariaethau sydd ar gael yn siop y safle i gynnwys bwyd babanod, cewynnau/clytiau ac ati. Os nad oes siop ar gael ar y safle, dylid darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os oes prydau'n cael eu darparu, gallu cynnig trefniadau bwyta addas i deuluoedd yn gynnar gyda'r nos a darparu prydau llai/bwydlenni i blant. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol | | |
| Os darperir prydau bwyd, dylid ystyried hyblygrwydd o ran amser cinio gyda'r nos | | |

# Croeso Teuluoedd

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol sy'n addas i deuluoedd, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw cyn i'r gwesteion gyrraedd, ar gais | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Anifeiliaid Anwes

**Mae'r Gwobr Croeso Anifeiliaid Anwes gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer anifeiliaid anwes. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i berchnogion anifeiliaid anwes eu bod yn archebu llety o safon neu'n ymweld ag atyniadau sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

**Mae'r Gwobr Croeso Anifeiliaid Anwes yn canolbwyntio'n bennaf ar gŵn, gan mai hon yw'r farchnad fwyaf, ond mae ymwelwyr yn hoffi teithio gydag anifeiliaid anwes eraill hefyd. Yn yr achosion hyn, dylai perchennog yr anifail anwes gysylltu â'r busnes yn uniongyrchol ynglŷn â pha mor addas yw'r llety i'w hanifail anwes. O ystyried bod gan bron i hanner cartrefi'r DU un neu ragor o anifeiliaid anwes, mae hon yn farchnad fawr.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Powlenni dŵr a bwyd ar gael (perthnasol i faniau hurio, llogi a llety glampio) | | |
| Bagiau a biniau gwastraff cŵn yn cael eu darparu neu ar gael, ar gais | | |
| Mae croeso i anifeiliaid anwes y tu mewn i'r llety, ond ni ddylid eu gadael ar eu pen eu hunain. Dylid rhoi gwybod i'r gwestai am unrhyw gyfyngiadau ar ble gall anifeiliaid anwes fynd pan fydd yn archebu (perthnasol i faniau hurio, llogi a llety glampio) | | |
| Un o'r canlynol ar gael i westeion ar gais – ddanteithion cŵn, teganau, dillad gwely sbâr a thenynnau sbâr – gellir codi tâl am y rhain | | |
| Man glanhau cŵn y tu allan, a phibell ddŵr a bwced ar gael. Darparu hen dyweli ar gyfer sychu pawennau gwlyb/mwdlyd gyda'r bwriad o gadw'r tu mewn i'r llety'n lân (perthnasol i faniau hurio, llogi a llety glampio) | | |
| Tortsh/golau nos ar gael ar gais | | |
| Os oes gan anifeiliaid anwes fynediad at ardal ymarfer, dylid darparu ffens addas. Os nad oes un ar gael, dylid darparu manylion ardal ymarfer addas ar gyfer cŵn gerllaw, ynghyd â gwybodaeth am fannau i fynd â chŵn am dro a chyfarwyddiadau iddynt | | |
| Darparu man storio ar gyfer cewyll cludo anifeiliaid, ar gais | | |
| Gosod bachau y tu allan i'r holl gyfleusterau er mwyn clymu anifeiliaid anwes yn ddiogel | | |
| Gwybodaeth ar gael am siop anifeiliaid anwes leol, milfeddygon, tafarndai/bwytai ac atyniadau sy'n croesawu anifeiliaid anwes | | |
| Os yw eich eiddo ger maes awyr neu borthladd, dylid darparu gwybodaeth am leoliad yr ardaloedd cofrestru anifeiliaid anwes yn y maes awyr neu'r porthladd a beth yw trefniadau'r fferi ei hun ar gyfer anifeiliaid anwes tra byddant ar fwrdd y llong | | |
| Gwybodaeth glir am nifer yr anifeiliaid, eu math a'u maint, gan gynnwys taliadau ychwanegol am anifeiliaid anwes ac unrhyw gyfyngiadau neu reolau ar gyfer anifeiliaid anwes os bydd difrod neu rywbeth yn torri (yn berthnasol i faniau hurio, llogi a llety glampio) | | |
| Y logo Gwobr Croeso Anifeiliaid Anwes i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

# Croeso Anifeiliaid Anwes

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darpariaethau ar gyfer anifeiliaid anwes ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, yr ardal ddynodedig lle mae anifeiliaid anwes yn cael eu croesawu y tu mewn i'r clwb/bwyty ar y safle. Gallu cynnig cyfleusterau bwyta sy'n addas i anifeiliaid anwes yn gynnar gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol. Os darperir prydau bwyd, dylid ystyried hyblygrwydd o ran amser cinio gyda'r nos | | |
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol sy'n addas i anifeiliaid anwes, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw cyn i'r gwesteion gyrraedd, ar gais | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Pysgotwyr

Croeso Pysgotwyr Anglers Welcome

**Mae'r Gwobr Croeso Pysgotwyr gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer pysgotwyr. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i bysgotwyr eu bod yn archebu llety o safon sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

**Gyda 750 milltir o arfordir a mewndir sy'n frith o afonydd clir a llynnoedd gwyllt, does dim syndod bod yr arlwy pysgota yng Nghymru ymysg y gorau ym Mhrydain.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darparu rhewgell/rhewgist i bysgotwyr eu defnyddio i storio'r hyn maen nhw wedi'i ddal, gallai hyn fod ar gael naill ai o fewn preswylfa cyfagos y perchnogion neu ardal cyhoeddus o fewn adeilad cyhoeddus yr eiddo | | |
| Darparu man storio diogel ar gyfer yr holl offer pysgota ac ati | | |
| Darparu cyfleusterau ar gyfer golchi offer pysgota a pharatoi pysgod | | |
| Gwybodaeth ar gael am drwyddedau lleol/gwialenni pysgota | | |
| Darparu gwybodaeth am siopau abwyd/offer pysgota ar gael | | |
| Darparu gwybodaeth am lithrfeydd/safleoedd i lansio cychod yn lleol, gan gynnwys gwybodaeth leol am ble i bysgota. Darparu manylion ychwanegol am afonydd lleol, llynnoedd pysgota neu deithiau pysgota ac ati | | |
| Y logo Gwobr Croeso Pysgotwyr i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darpariaethau ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, dylid ystyried hyblygrwydd o ran amseroedd prydau gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol | | |
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw cyn i'r gwesteion gyrraedd, ar gais | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Beicwyr

**Mae'r Gwobr Croeso Beicwyr gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer beicwyr. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i feicwyr eu bod yn archebu llety o safon neu'n ymweld ag atyniadau sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

**Mae Cymru'n adnabyddus am ei ffyrdd troellog a'i golygfeydd godidog. Ar ddiwrnod braf, mae beicwyr yn heidio dros y ffin i fanteisio ar y mannau beicio gwych. Mae llond gwlad o lwybrau amrywiol yng Nghymru – gall beicwyr grwydro ar hyd ffyrdd llydan a llyfn sy'n ymdroelli rhwng bryniau gwyrddion neu reidio ar hyd llwybrau baw drwy diroedd bendigedig.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darparu man diogel, dan glo a dan do i ymwelwyr gadw eu beiciau. Dylid gallu cloi beiciau y tu mewn hefyd os yw'r gwestai yn dymuno gwneud hynny | | |
| Darparu cyfleusterau parcio diogel pwrpasol ar wyneb caled ar y safle. Os nad yw'n bosibl, cyfeiriwch ymwelwyr i'r lleoliad parcio beiciau agosaf | | |
| Sicrhau bod cyfleusterau golchi beiciau ar gael, gan gynnwys chwistrell feisorau, cadachau, dŵr sebon poeth, brwsh/polish esgidiau a hylif golchi dwylo sy'n diseimio, ar gais | | |
| Arddangos gwybodaeth am ddiogelwch beicio diogel, ee 'Pwyllwch!' (y logo diogelwch ar y ffyrdd) https://www.think.gov.uk/campaign/motorcycling/ (Saesneg yn unig) | | |
| Darparu gwybodaeth am argaeledd ac amseroedd agor garejys lleol/arbenigol, gorsafoedd petrol a siopau beiciau, a chyfarwyddiadau iddynt | | |
| Mapiau a llyfrau am feicio yn yr ardal ar gael i gyfeirio atynt, yn ogystal â manylion llwybrau a sefydliadau beicio lleol a rhanbarthol | | |
| Darparu gwybodaeth am deithiau beicio sy'n cael eu hargymell, gan gynnwys natur y ffyrdd (troellog, cul, garw ac ati), golygfannau, atyniadau ac ati. Gall hyn fod ar ffurf apiau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer GPS neu Tri Gair Bach | | |
| Gwybodaeth am bwyntiau gwerfru e-feiciau pwrpasol | | |
| Y logo Gwobr Croeso Beicwyr i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darpariaethau ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, gallu cynnig yr opsiwn i fwyta'n gynnar gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol. Dylid ystyried hyblygrwydd o ran prydau gyda'r nos | | |
| Darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw cyn i'r gwesteion gyrraedd, ar gais | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Beicwyr

**Mae'r Gwobr Croeso Beicwyr gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer beicwyr. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i beicwyr eu bod yn archebu llety o safon neu'n ymweld ag atyniadau sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

**Gyda 1,200 milltir o Rwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru, dringfeydd ffordd heriol, beicio mynydd anhygoel, a llwybrau di-draffig addas i deuluoedd sy'n eich tywys drwy rai o dirweddau trawiadol a threfi a phentrefi croesawgar, mae Cymru'n cynnig rhywbeth i bob beiciwr.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Man dan do y gellir ei gloi er mwyn storio beiciau a panniers dros nos yn ddiogel gyda mynedfa ddirwystr | | |
| Mynediad at bwynt dŵr ar gyfer golchi beiciau a dillad awyr agored. Pibell ddŵr a/neu fwced a chadach ar gael | | |
| Pecyn argyfwng ar gyfer beiciau a thrwsio tyllau mewn teiars, ynghyd â manylion siopau trwsio/partiau beiciau agosaf. Mae eitemau a awgrymir yn cynnwys liferi teiars, hylif iro a phwmp ar gyfer falfiau | | |
| Arddangos gwybodaeth am ddiogelwch beicio diogel, ee 'Pwyllwch!' (y logo diogelwch ar y ffyrdd) – https://www.think.gov.uk/cycle-safety/ (Saesneg yn unig) | | |
| Manylion a chyfarwyddiadau ar gael ar gyfer y safleoedd llogi beiciau agosaf | | |
| A ydych yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd a llwybrau beicio lleol sy'n adlewyrchu'r math o feicio sydd ar gael yn eich ardal (e.e. llwybrau di-draffig i deuluoedd, beicio mynydd, beicio ffordd)? Gellir darparu gwybodaeth drwy eich gwefan, apiau, canllawiau printiedig, cyfryngau cymdeithasol neu wybodaeth arall i ymwelwyr. Ystyriwch gyfeirio ymwelwyr at wefan beicio Croeso Cymru am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: www.visitwales.com/cycling www.croeso.cymru/seiclo | | |
| Darparu gwybodaeth am gwmnïau teithiau beicio sy'n cael eu hargymell, golygfannau, atyniadau a lleoedd sy'n gyfeillgar i feicwyr i fwyta ac ati. Gall hyn fod ar ffurf apiau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer GPS neu Tri Gair Bach | | |
| Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau cludo beiciau a phwyntiau gwefru e-feiciau pwrpasol | | |
| Y logo Gwobr Croeso Beicwyr i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Yn achos gwersyllwyr a glampwyr, dylid cynnig diod boeth i bawb pan maent yn cyrraedd (hy, cyn iddynt osod eu pebyll neu tra maent yn gwneud hynny) | | |
| Darpariaethau ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, gallu cynnig yr opsiwn i fwyta'n gynnar gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol. Dylid ystyried hyblygrwydd o ran prydau gyda'r nos | | |
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw i westeion heb gar cyn iddynt gyrraedd, ar gais | | |

Croeso Beicwyr
Cyclists Welcome

Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod:

# Croeso Cerddwyr

**Mae'r Gwobr Croeso Cerddwyr gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer cerddwyr. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i gerddwyr eu bod yn archebu llety o safon neu'n ymweld ag atyniadau sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

**Mae cerdded yn weithgaredd sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd fel rhan o deithiau domestig dros nos. Mae dros 1,368 milltir o'r llwybrau cerdded gorau yn y byd yng Nghymru, gyda threfi a phentrefi ar hyd y ffordd i ymlacio a chael ail-wynt. Mae golygfeydd godidog i'w gweld ledled ein hardaloedd cerdded, p'un a welir arfordir, mynyddoedd, dyffrynnoedd neu fryniau.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Dylai man sychu ar wahân fod ar gael i hongian dillad gwlyb, storio bagiau cefn ac ati | | |
| Offer crafu esgidiau wrth y prif ddrysau a/neu fynediad at gyfleusterau gyda chyflenwad dŵr i lanhau esgidiau a dillad awyr agored. Dylid hysbysebu a labelu'r man hwn yn glir a dylai fod ar wahân i'r pwyntiau dŵr yfed | | |
| Mapiau a llyfrau am gerdded yn yr ardal ar gael i gyfeirio atynt, yn ogystal â manylion llwybrau a sefydliadau cerdded lleol a rhanbarthol | | |
| Sicrhau bod manylion y darparwyr adwerthu cyfarpar awyr agored agosaf ar gael, yn ogystal â chyfarwyddiadau iddynt | | |
| Y logo Gwobr Croeso Cerddwyr i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Yn achos gwersyllwyr a glampwyr, dylid cynnig diod boeth i bawb pan maent yn cyrraedd (hy, cyn iddynt osod eu pebyll neu tra maent yn gwneud hynny), ar gais | | |
| Darpariaethau ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, gallu cynnig yr opsiwn i fwyta'n gynnar gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol. Dylid ystyried hyblygrwydd o ran prydau gyda'r nos | | |
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw i westeion heb gar cyn iddynt gyrraedd, ar gais | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Cartrefi Modur

**Mae'r Gwobr Croeso Cartrefi Modur Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer cartrefi modur. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i berchnogion cartrefi modur eu bod yn archebu cyfleusterau o safon neu'n ymweld ag atyniadau sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

**Mae'n hawdd paratoi ar gyfer teithiau mewn cartrefi modur, sy'n eu gwneud yn ddelfrydol ar gyfer gwyliau byr, neu wyliau am wythnos neu fwy. Cyn belled â bod yr oergell a'r tanc petrol yn llawn, rydych chi'n barod i fynd. Mae'n golygu llai o amser yn potsian cyn cyrraedd lle rydych chi eisiau bod, yn enwedig os ydych chi wrth eich bodd â'r awyr agored. Mae teithio o gwmpas Cymru mewn cartref modur yn ffordd wych o fwynhau harddwch a threftadaeth y wlad. Gyda golygfeydd godidog ar draws Cymru, mae safleoedd hyfryd i aros ynddynt ym mhob cwr o'r wlad.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darparu lleiniau caled sy'n cynnig lle sylweddol o ran hyd a lled | | |
| Darparu draen dŵr llwyd a phwynt dŵr i bob llain neu Bwynt Gwaredu Dŵr i Gerbydau Modur a phwynt dŵr o ansawdd da gyda mynediad hawdd ato ar wyneb caled. Darparu cyfleusterau gwaredu gwastraff cemegol digonol | | |
| Pwynt cysylltu trydan wedi'i ddarparu ar gyfer pob llain, gyda'r costau wedi'u hysbysebu'n glir | | |
| Darparu ar gyfer pobl sy'n cyrraedd yn hwyr | | |
| Yn eu deunydd marchnata, ee gwefan, dylai parciau nodi maint y cartrefi modur mwyaf y gellid eu derbyn i'r parc a nifer y lleiniau addas ar gyfer cartrefi modur sydd ar gael | | |
| Darparu gwybodaeth am amseroedd agor, lleoliad a chyfeiriad y gwasanaethau trwsio/cyflenwyr cartrefi modur, gorsafoedd petrol/garejys lleol a chaffis sy'n addas i gartrefi modur | | |
| Darparu gwybodaeth am deithiau cartrefi modur sy'n cael eu hargymell, gan gynnwys natur y ffyrdd (troellog, cul, garw ac ati), golygfannau, atyniadau ac ati. Gall hyn fod ar ffurf apiau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer GPS neu Tri Gair Bach | | |
| Y logo Gwobr Croeso Cartrefi Modur i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darpariaethau ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, gallu cynnig yr opsiwn i fwyta'n gynnar gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol. Dylid ystyried hyblygrwydd o ran prydau gyda'r nos | | |
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw cyn i'r gwesteion gyrraedd, ar gais | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Golffwyr

**Mae'r Gwobr Croeso Golffwyr gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer golffwyr. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i olffwyr eu bod yn archebu llety o safon sydd yn diwallu eu hanghenion penodol.**

**Mae dros 200 o gyrsiau golff yng Nghymru, sydd yn amrywio o gyrsiau â chysylltiadau glan môr hanesyddol i gyrsiau mewn parciau hardd a thrwsiadus.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Mannau cyfleus i wefru batris ar gyfer troliau trydan | | |
| Darparu man storio diogel y gellir ei gloi ar gyfer clybiau golff neu offer y gwesteion | | |
| Y gallu i drefnu amseroedd cychwyn gemau golff os oes angen | | |
| Darparu gwybodaeth am gyrsiau lleol (cyfleusterau clybiau, mapiau o gyrsiau, rhifau cyswllt, amseroedd golffio arferol i ymwelwyr, cod gwisg, cyfarwyddiadau, amseroedd dreifio rhwng pob lefel o anhawster, ffioedd y glaslawr neu a dderbynnir Pasys Golff neu gynlluniau talebau i arbedwyr) | | |
| Darparu gwybodaeth am siopau chwaraeon lleol neu golff/siopau clybiau/llogi clybiau/hyfforddiant/argaeledd ardaloedd ymarfer neu feysydd ymarfer | | |
| Gwybodaeth gyffredinol am yr ardal leol gydag awgrymiadau amgen ar gyfer y rheini nad ydynt yn chwarae golff | | |
| Y logo Gwobr Croeso Golffwyr i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darpariaethau ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, gallu cynnig yr opsiwn i fwyta'n gynnar gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol. Dylid ystyried hyblygrwydd o ran prydau gyda'r nos | | |
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw cyn i'r gwesteion gyrraedd, ar gais | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

# Croeso Criwiau Teledu/Ffilm

**Mae'r Gwobr Croeso Criwiau Teledu/Ffilm gan Croeso Cymru wedi cael ei ddatblygu i gydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae busnesau wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer Criwiau Teledu/Ffilm. Bydd arddangos y logo yn rhoi hyder i Griwiau Teledu/Ffilm eu bod yn archebu llety o safon neu'n ymweld ag atyniadau sy'n diwallu eu hanghenion penodol.**

**Mae amrywiaeth eang o leoliadau ar gael yng Nghymru ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu, o fynyddoedd epig i arfordir godidog, tirweddau diwydiannol i fythynnod anghysbell, a chestyll hanesyddol i flociau swyddfeydd modern.**

| Cyfleusterau, Gwasanaethau a Darpariaeth Gwybodaeth (Ychwanegol) | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darparu amseroedd cyrraedd hyblyg gyda mynediad 24 awr i'r parc/safle drwy drefniant | | |
| Parchu cyfrinachedd y cwmni ffilmio, gan gynnwys natur y ffilmio, y lleoliadau a ddefnyddir a'r gwesteion sy'n aros yn y parc neu ar y safle. Trefnu i wasanaethu'r llety/ystafelloedd yn unol â phatrymau gwaith y criw | | |
| Darparu digon o le parcio ar gyfer cerbydau'r criw ffilmio gan ystyried diogelwch y cerbydau ac offer y criw | | |
| Sicrhau bod man storio diogel ar gael, ar gais | | |
| Darparu desgiau mewn ystafelloedd, lolfa breifat a/neu ystafell gyfarfod/canolfan waith (lle bo hynny'n berthnasol) | | |
| Cynnig yr opsiwn i negodi cyfraddau ar gyfer cyfnodau aros neu gyfnodau llogi hirach (lle bo hynny'n berthnasol) os oes angen. Sicrhau bod yr opsiwn i filio'r cwmni ar gael i'r cwmni ffilmio | | |
| Sicrhau bod manylion cwmnïau llogi ceir/faniau lleol ar gael | | |
| Y logo Gwobr Croeso Criwiau Teledu/Ffilm i fod yn weladwy ar wefan eich busnes | | |

| Trefniadau Bwyd | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darpariaethau ar gael yn siop y safle. Os nad oes siop ar gael ar y safle, darparu manylion y siop fwyd agosaf a chyfarwyddiadau iddi. Gall hyn fod mewn pwynt gwybodaeth canolog, hawdd ei gyrraedd | | |
| Os darperir prydau bwyd, gallu cynnig yr opsiwn i fwyta'n gynnar gyda'r nos. Byddai darparu ar gyfer anghenion deietegol a chynnig opsiynau iach yn ddymunol. Dylid ystyried hyblygrwydd o ran prydau gyda'r nos | | |
| Os nad oes prydau bwyd yn cael eu darparu, gellid darparu byrbrydau ysgafn neu ddiodydd ysgafn, a gellid codi tâl amdanynt – dylid trafod y trefniant hwn pan fydd gwesteion yn archebu. Fel arall, dylid darparu gwybodaeth am sefydliadau sy'n gweini brecwast a bwytai lleol, gan gynnwys eu lleoliad a'u hamseroedd agor | | |
| Cynnig archebu eitemau bwyd sylfaenol ymlaen llaw cyn i'r gwesteion gyrraedd, ar gais | | |
| Oriau gwasanaeth estynedig yn y bar/lolfa (o fewn y gyfraith) i gyd-fynd â gofynion y criw, os yn berthnasol | | |

| Os nad yw unrhyw bwyntiau uchod yn berthnasol neu wedi eu hateb 'Na', ymhelaethwch ymhellach isod: |
|---|
| |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ymholiadau Ffôn: 03000 622418
E-bost: quality.tourism@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54030
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg